# ARCHARWYR HINSAWDD


## Golau artiffisial o ba liw sydd orau ar gyfer tyfu planhigion?

FARMVENTION

# Y broblem

Wrth i'r boblogaeth fyd-eang gynyddu, mae'n dod yn fwy a mwy pwysig i wneud y defnydd gorau o dir ar gyfer tyfu cnydau. Mae tai gwydr yn cynnig cyfle da i ymestyn y tymor tyfu. Gall goleuadau helpu i blanhigion dyfu 24 awr y dydd.

Ond golau artiffisial o ba liw sydd orau ar gyfer tyfu planhigion?



# Eich her!

Rydych chi'n ymchwilydd amaethyddol sy'n ymchwilio i'r lliw golau gorau ar gyfer tyfu planhigion.

Rydych chi eisiau cynghori ffermwyr yn y DU am y lliw gorau o olau artiffisial ar gyfer tyfu planhigion yn eu tai gwydr


Byddwch yn ymchwilio i sut mae gwahanol liwiau golau yn effeithio ar dwf planhigion pys.







# Sut i osod eich ymchwiliad




Gallwch ddefnyddio blychau cardbord ar gyfer eich ymchwiliad.


Rydych chi'n torri ffenestr ym mhen uchaf y blwch ac yn gorchuddio'r ffenestr gyda hidlydd lliw.

Pa liwiau golau y byddwch chi'n eu profi a faint o flychau fydd eu hangen arnoch chi?





# Newidynnau allweddol




Beth yw'r **newidyn annibynnol** yn yr ymchwiliad?

Meddyliwch am yr hyn y byddwch chi'n ei **newid**.


Beth yw'r **newidyn dibynnol**?

Meddyliwch am yr hyn y byddwch chi'n ei **fesur**.





# Newidynnau rheoledig




Meddyliwch am y newidynnau y mae angen i chi eu rheoli (cadw yr un peth).

Beth ydyn nhw?

Sut y byddwch chi'n sicrhau eu bod yn cael eu rheoli?

# Cynllunio'r ymchwiliad

Nawr cynlluniwch eich ymchwiliad i ddod o hyd i'r lliw gorau o olau artiffisial ar gyfer tyfu planhigion.







# Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?

Pa liw golau yw'r gorau ar gyfer tyfu planhigion pys?

Defnyddiwch eich canfyddiadau i ysgrifennu adroddiad gyda thystiolaeth.

Dylai eich adroddiad gynghori ffermwyr yn y DU am y lliw gorau o olau artiffisial ar gyfer tyfu planhigion yn eu tai gwydr.






# Neu boster ymchwil

Fel dewis arall, defnyddiwch eich canfyddiadau i wneud poster ymchwil gwyddoniaeth i gynghori ffermwyr am y lliw golau gorau ar gyfer tyfu cnydau.





# Nodweddion poster ymchwil gwyddoniaeth








# Cystadleuaeth



Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio'ch dysgu am beth yw'r lliw gorau o olau artiffisial ar gyfer tyfu planhigion i'ch helpu chi i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

**www.farmvention.com**

